CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 23 Tachwedd 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN YR IORWERTH, BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, S Parry, G Parry, R G Parry, I Rowlands, K Humphreys, C Ll Thomas, E Huws, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng N Highley a Cyng N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Rhoddion Nadolig: Cyng R G Parry, Cyng S Parry, Cyng K Humphreys,
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 19 Hydref 2016, Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng C Ll Thomas yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr** - Bydd y Clerc yn trefnu cael prisiau newydd (i gynnwys llechi Cymraeg).
4.2	**Siec cyfrif y maes chwarae** - mewn llaw
4.3	**Maes chwarae (trin yr offer)** - Mae'r Clerc yn disgwyl i Macventure Play symud ymlaen gyda'r rhaff. Hefyd bydd y Clerc yn cyflwyno cais am swing newydd.
4.4	**Lon Salem** Gofynwyd i'r Clerc trefnu cyfarfod ar y safle i drafod arwyddion ac ymlaen
4.5	**Hysbysffwrdd Newydd** - Bydd y gwaith yn cael ei wneud wythnos nesaf.
4.6	**Gan Bwyll** - Darllenwyd ebost gan Gan Bwyll yn dweud byddant yn gwneud survey yn y pentref
4.7	**Cynefin (Lon Salem)** Y rheswm nad yw y palmant wedi ei gwblhau yw nad yw y S106 (mabwysiadu'r ffordd) wedi ei gwblhau/gytuno hefo'r Cyngor. Mae Cynefin yn disgwyl clywed gan Williams Homes. Bydd y Clerc yn atgoffa Cynefin bydd rhaid gwneud y gwaith mor fuan a sy'n bosib oherwydd iechyd a diogelwch.
4.8	**Lon y fynwent** - mewn llaw
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Mae'r Cadeirydd wedi derbyn cwyn am dim digon o biniau baw ci yn y pentref. Cynigodd y Cadeirydd egluro i'r person sydd wedi cwyno bod y biniau cyffredinol ar gyfer baw ci hefyd. Hefyd, cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i'r Clerc am ei waith ac i pawb am cyd-weithio. Gofynwyd i'r Clerc cofnodi bod y wal yn y fynwent wedi cael ei ddifrodi.
	Llofnod…….Cadeirydd 18.01.17

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
6.1	Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn - Mae'r Cyngor Sir yn y broses o ailffurfio y Fforwm. Cytunwyd i cynnig enw y Cadeirydd.
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae Cyng I Rowlands wedi cael pris gan Crefftau Elidir o Llanberis am £290 am gwneud plaque i osod ar Carreg yr Eisteddfod. Cytunwyd i symud ymlaen oherwydd yr oedi gan Inigo Jones.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu (Cyng G Parry yn cynnig a Cyng C Ll Thomas yn eilio):
9.1	Ynys Trading Ltd £3668.92 (maes chwarae)
9.2	Rhoddion Nadolig £50 yr un: Ysgol Feithrin Bryngwran, Plas Crigyll Bryngwran, Canolfan Dydd Plas Cigyll Bryngwran, Ysgol Gynradd Bryngwran, Bryngwran Cymunedol, Bryngwran Bulls, Eglwys y Plwyf Bryngwran
9.3	Costau y Cadeirydd £72.00
9.4	E Huws (bwyd Sul y Cofio) £25.00
9.5	R Hughes (bwyd heno cyfarfod y Cyngor) £60.00
9.6	Cytunwyd i codi cyflog y Clerc i £250 y mis o mis nesaf - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng K Humphreys yn eilio.
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Mynwent Llanbeulan
	Llofnod…….Cadeirydd 18.01.17